# Llio Plas y Nos.djvu/119



Exported from Wikisource on 19 Hydref 2024

Prawfddarllenwyd y dudalen hon

sefydlodd hwy ar Ivor am foment; ond yn y foment honno darllenodd ef ynddynt gyfrinach ei chalon.

"Llio anwylaf," eb ef, "cyn gynted ag y daw'r nos, fe adawn-ni'r fangre felltigaid yma am byth. A chyn pen wythnos wedi hynny, mi fyddwch chi yn wraig i mi."

"Yn wraig ichi, Ivor, cyn pen yr wythnos? O, Ivor, prin y medra-i gredu bod y fath hapusrwydd yn bosib imi."

"Mae-hi'n fwy anodd imi gredu y ca' i ran ohono, Llio fach. A phetasai nghyfaill, Gwynn Morgan, wedi meiddio awgrymu'r fath beth cyn imi ych gweld-chi, mi fuaswn i'n ddig wrtho am gellwair. O Dduw, dydw-i ddim yn deilwng o hyn. Ond rydech-chi'n amddifad a diamddiffyn, ag yn unig yn y byd; rydw innau'n unig ag amddifad; ond mi feder serch beri imi anghofio'r gorffennol. Mi ga' innau ych amddiffyn-chi, a'ch noddi-chi, unwaith y byddwch-chi'n wraig imi. A fedra-i ddim gwneud hynny'n hir heb inni briodi. Felly, Llio fach, peidiwch â digio am 'y mod-i'n rhoi rhybudd mor fyr ichi."

"Does arna-i ddim eisio dim, Ivor, ond bod hefo chi."

Ar ôl hyn eisteddodd y ddau yn berffaith lonydd am amser maith, heb yngan gair y naill wrth y llall. Llawnion iawn oedd eu meddyliau, a diau bod eu myfyrdodau'n felys. Un peth a ymddangosai'n gryn anhawster i Ivor oedd sut i

fyned â Llio ymaith, ac ymha le i'w gadael am ychydig ddyddiau. Ni welai y gallai wneud dim amgenach na'i harwain dan len y nos

ar draws y wlad i'r bwthyn, ac yna oddi yno i'r gwesty

# About this digital edition

This e-book comes from the online library Wikisource[1]. This multilingual digital library, built by volunteers, is committed to developing a free accessible collection of publications of every kind: novels, poems, magazines, letters...

We distribute our books for free, starting from works not copyrighted or published under a free license. You are free to use our e-books for any purpose (including commercial exploitation), under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 Unported[2] license or, at your choice, those of the GNU FDL[3].

Wikisource is constantly looking for new members. During the realization of this book, it's possible that we made some errors. You can report them at this page[4].

The following users contributed to this book:

- AlwynapHuw

---

1. ↑ https://wikisource.org

2. ↑ https://www.creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0
3. ↑ https://www.gnu.org/copyleft/fdl.html
4. ↑ https://wikisource.org/wiki/Wikisource:Scriptorium